

Archwiliad CDLI Newydd Caerdydd

Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu HS1.1 o Sesiwn Gwrandawriad 1 Niferoedd Tai

Cwestiwn gan yr Arolygwyr:

Mae Edge yn 3.10 yn eu diweddariad yn honni, 'mae Llywodraeth Cymru wedi alinio'r amcangyfrifon mudo rhyngwladol â'r amcangyfrifon cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod rhwng canol 2022 a chanol 2024. Mae hyn yn amlwg mewn siartiau yn Ffigur 12 lle mae'r mudo rhyngwladol (porffor tywyll) yn uwch yn ystod dwy flynedd gyntaf y senarios hyn.'

Fodd bynnag, mae'r cyflwyniad i LIC 2022 yn nodi eu bod 'yn dangos faint o aelwydydd ychwanegol fyddai'n cael eu ffurfio pe bai poblogaeth Cymru yn parhau i newid fel y gwnaeth rhwng canol 2018 a chanol 2022, ac yn parhau i ffurfio aelwydydd fel y gwnaeth rhwng 2001, 2011 a 2021', gan ddangos nad oedd amcanestyniadau 2022 yn ystyried newidiadau, gan gynnwys mudo rhyngwladol, ar ôl canol 2022.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ei hadroddiad technegol manwl eto, sy'n rhoi manylion am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu amcanestyniadau 2022. Yn absenoldeb y fethodoleg a'r safbwynt datganedig gan wefan LIC ynghylch sail amcanestyniadau 2022, ble mae'r dystiolaeth bod prif amcanestyniadau 2022 yn cynnwys data ar fudo rhyngwladol o ganol 2022 i ganol 2024?

Ymateb:

Mae Edge Analytics wedi darparu ymateb ar ran y Cyngor ac yn nodi bod amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn cael eu drysu yma.

Mae'r testun y mae'r Arolygwyr yn ei ddyfynnu yn ymwneud â'r rhagamcanion aelwydydd ac mae'n gywir – mae Llywodraeth Cymru yn nodi hyn yn eu cyhoeddiad am amcanestyniadau aelwydydd ([yma](#)).

Yn y cyhoeddiad am amcanestyniadau poblogaeth ([yma](#)), mae Llywodraeth Cymru yn datgan:

“Rydym wedi cyfyngu ar fudo rhyngwladol yn ein hamcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 2022-23 a 2023-24 i gyd-fynd â'r amcangyfrifon a gyhoeddwyd ar fudo rhyngwladol yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth.”

Anfonodd Edge Analytics e-bost at Lywodraeth Cymru ar 18 Ebrill 2026 i ofyn am hyn, gan ei bod yn ymddangos o'r gwahanol senarios poblogaeth mai dim ond i'r amrywiad Prif boblogaeth a'r amrywiadau poblogaeth Uchel ac Isel yr oedd hyn yn berthnasol.

Cafodd Edge Analytics yr ymateb canlynol (ychwanegwyd testun trwm er mwyn pwysleisio):

“Ar gyfer y **prif** senario a'r senarios poblogaeth **uchel** ac **isel**, mae data mudo rhyngwladol pob awdurdod lleol wedi'i gyfyngu, o ran mewnfudo ac allfudo

rhyngwladol, ar gyfer y cyfnod rhwng canol 2022 a chanol 2023 a chanol 2023 i ganol 2024, i **gyd-fynd â'r mudo rhyngwladol a gyhoeddwyd yn yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diwygiedig ym mis Gorffennaf 2025**. Nid yw'r dull wedi newid ar gyfer pob blwyddyn arall yng nghyfnod yr amcanestyniad, o ganol 2025 ymlaen. Nid yw'r holl elfennau newid eraill (genedigaethau, marwolaethau, mudo mewnol) wedi'u cyfyngu i ddata canol 2023 a chanol 2024 o'r amcangyfrifon canol blwyddyn...

...O ran yr amrywiadau **cyfartaledd 10 mlynedd a chyfartaledd 15 mlynedd** – gwnaethom benderfyniad i **beidio â chyfyngu ar y mudo rhyngwladol** ar gyfer y ddau amrywiad hyn gan ein bod yn gwahaniaethu nifer y blynyddoedd a ddefnyddir wrth gyfrifo'r mudo ac roeddem o'r farn y byddai'n well cynnal y ddau amrywiad hyn heb gyfyngu ar y mudo rhyngwladol."